**Cyngerdd**
**gan**
**Gôr Merched Canna**
*Arweinydd: Delyth Medi*
*yng Nghapel y Garn*
*Nos Sadwrn, 1 Ebrill 2006*
*Llywydd: Y Parchedig R W Jones*
*Mynediad £5; plant £2*
*Yr elw tuag at y capel*

*Chwiorydd y Garn*

Mae'r gwaith ar adnewyddu'r gegin wedi dechrau, ac erbyn hyn mae unedau newydd yn amgylchynu'r gegin. Disgwylir y bydd y peintio a'r manion eraill wedi eu cwblhau erbyn y daw'r rhifyn nesaf o 'Gair o'r Garn' allan.

Cynhelir Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De eleni yng Nghapel Heol y Dŵr, Caerfyrddin ddydd Mawrth, Mai 16eg am 2 a 5.30 o'r gloch. Y siaradwyr fydd y Parchedig Pryderi Llwyd Jones, BA, BD, Aberystwyth, a'r Dr Gwyneth H Lewis Llundain.

Mynwent y Garn

Gwnaethpwyd gwaith tario da ar lwybrau'r fynwent ddechrau mis Chwefror ar gost o dros £6,000. Diolch i bawb a gyfrannodd at y gost, a hefyd i Gyngor Sir Ceredigion, Eleri-Amgen a'r tri chyngor cymuned — Tirymynach, Llanfihangel Genau'r Glyn a'r Borth. Mae angen rhyw bedwar llwyn lliwgar neu flodeuog, na fydd yn tyfu'n uchel, ar flaen y fynwent. Oes un sbâr gennych?

*Eddie Jones* (*Goruchwyliwr y fynwent*)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 11 Mehefin i:

| | |
|---|---|
| Mr Dewi G Hughes | Mrs Marian B Hughes |
| Bod Hywel | 14 Maes y Garn |
| (828026) | (828662) |
| dewighughes@lineone.net | marian_hughes@btinternet.com |

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 21 www.capelygarn.org Gwanwyn 2006



*I'r Arglwydd, gwas tragwyddol. — Yn y Garn*
*Rhoes i'r Gair wisg ddwyfol,*
*A naws brodwaith ysbrydol*
*Ei waith a erys ar ôl.*

*(V.J.)*

***Sgwrs gyda'r Parchedig R W Jones***
***ar drothwy ei ymddeoliad***

*MBH*: *Pa bryd benderfynoch chi eich bod am fynd i'r weinidogaeth a pha bryd wnaethoch chi bregethu am y tro cyntaf?*

*RWJ*: Roeddwn â'm bryd ar y weinidogaeth er pan oeddwn yn fachgen ifanc iawn. Mae'n debyg fy mod yn cynnal gwasanaethau ac yn pregethu ar ben stôl i aelodau'r teulu pan oeddwn yn bedair oed, ac fe bregethais yn gyhoeddus am y tro cyntaf yn 17 oed.

*MBH*: *Beth sydd wedi rhoi'r mwyaf o foddhad i chi yn ystod eich gweinidogaeth?*

*RWJ*: Cael cyfle i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Rhai o'r uchafbwyntiau cofiadwy i mi yw ambell wasanaeth lle roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan. Hefyd, gweld pobl yn gallu goresgyn amgylchiadau anodd ofnadwy a dal i gydio yn eu ffydd.

*MBH*: *Pa elfen o'r weinidogaeth fyddwch chi'n ei cholli fwyaf wedi i chi ymddeol?*

*RWJ*: Colli'r gofal dros bobl, yr elfen o fugeilio'r praidd.

*MBH*: *Oes yna rai pethau fyddwch chi'n falch o beidio â gorfod eu gwneud?*

*RWJ*: Llenwi ffurflenni, llunio chwech o anerchiadau diwedd blwyddyn ar gyfer yr eglwysi, a mynd i bwyllgorau diddiwedd.

*MBH*: *Pa un yw eich hoff ran o'r Beibl?*

*RWJ*: Rhan olaf yr wythfed bennod o Lythyr Paul at y Rhufeiniaid, sy'n darllen, 'Pwy a'n gwahana oddi wrth gariad Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu erlid, neu newyn, neu noethni, neu berygl, neu gleddyf? … Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu, ein Harglwydd.'

## Mehefin



**4** ***Sul y Pentecost***
Tegwyn Jones

**11** Melfydd George

16 Te Bethlehem am 6.30 o'r gloch

**18** Raymond Davies

**25** Parch J R Jenkins
Oedfa gymun yn y bore

Gŵyl ysgolion Sul Henaduriaeth Gogledd Aberteifi
Mabolgiamocs ar gae ysgol Rhydypennau am 2.30 o'r gloch

***Yr ysgol Sul – apêl***

Colled fawr iawn i'r ysgol Sul, ac yn wir i'r Eglwys a'r fro yn gyffredinol, oedd colli Buddug (BJ) mor ddisymwth ddechrau'r flwyddyn. Bu ei hymrwymiad i blant a phobl ifanc yr Eglwys yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn yn ddiarbed. Byddai yma gyda hwy bob Sul yn ddi-ffael. Aeth â hwy ar deithiau cyn belled â Llundain, i wersylla yn y Bala, ac i chwarae rowderi ar draeth y Borth. Fe gawson nhw hefyd gyfle i gymryd rhan yn y gwasanaethau ysbrydoledig a luniwyd ganddi.

Diolchwn i Janet, Lowri a Brenda am ofalu am yr ysgol Sul yn ystod y tymor hwn. Rydym yn gwerthfawrogi eu llafur, ac yn llawenhau o gweld gwaith graenus y plant ar furiau'r festri.

Y deyrnged orau y gallwn ei thalu i Buddug yw sicrhau parhad a ffyniant gwaith yr ysgol Sul a oedd mor agos i'w chalon. Ydych chi'n fodlon helpu i wneud hyn trwy fod yn athro/athrawes am y tymor nesaf? Byddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw gymorth – cysylltwch â Janet neu â'r Swyddogion.

Hefyd, fe hoffem weld mwy o blant yn dod ar fore Sul. Dyma ddyfodol yr Eglwys, ac felly ein braint a'n dyletswydd ni i gyd yw annog a meithrin ein plant a'n pobl ifanc.

## Mai

3 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Bethel, Tal-y-bont, am 7 o'r gloch

5 Noson Goffi'r Chwiorydd ym Methlehem, Llandre am 7 o'r gloch
Stondinau yng ngofal y blaenoriaid

**7** Arthur Roderick

10 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, am 7 o'r gloch

**14** Oedfa 'Cyfri dy fendithion' yng nghwmni plant ac ieuenctid ysgolion Sul Gogledd Ceredigion
Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, am 10 o'r gloch

Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion
Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, am 5.30 o'r gloch
Arweinydd: Mrs Beti Wyn Emanuel, Blaen-plwyf

16 Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De yng Nghapel Heol y Dŵr, Caerfyrddin am 2 a 5.30 o'r gloch
Siaradwyr: Y Parchedig Pryderi Llwyd Jones
Dr Gwyneth H Lewis, Llundain

19 Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch

**21** **Sul Cymorth Cristnogol**
Gwasanaeth arbennig am 10.30 o'r gloch
Anerchir gan y Parch Tom Defis, Caerfyrddin (Ysgrifennydd Rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru, Cymorth Cristnogol)
Cynulleidfa Capel Noddfa yn ymuno yn y Garn

Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn dilyn yr oedfa

24 Henaduriaeth Gogledd Aberteifi
Oedfa gymun a choffâd yng Nghapel Gosen am 7 o'r gloch

**28** Parch Wiliam Owen
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

*MBH*: *Pa rai yw eich hoff emynau?*

*RWJ*: O Fab y Dyn, Eneiniog Duw, fy Mrawd
a'm Ceidwad cry',
ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd
heb neb o'th du;
cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam,
ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam.

a hefyd,
O gariad na'm gollyngi i,
gorffwysfa f'enaid ynot sydd;
yr einioes roddaist, cymer hi,
a llawnach, glanach fyth ei lli
yn d'eigion dwfn a fydd.

*MBH*: *Pa fath o gerddoriaeth sy'n apelio atoch?*

*RWJ*: Rydw i'n hoff o lawer math o gerddoriaeth, o opera i emynau Cymraeg i ganu gwlad. Does gen i ddim llawer i'w ddweud wrth jas a rap, ond rydw i'n hoffi Roy Orbison, Meat Loaf, a Bonnie Tyler.

*MBH*: *Beth yw eich gobeithion i'r dyfodol yn eich bywyd personol?*



*RWJ*: Cael cyfle i ymlacio am ychydig a threulio mwy o amser yng nghwmni Rhian, a gweld mwy ar y plant – a hefyd mynd ar fy meic modur newydd.

*MBH*: *Beth yw eich gobeithion i'r Garn ac eglwysi eraill yr ofalaeth?*

*RWJ*: Mae'r ofalaeth yn gyfoethog o ran adnoddau. Daliwch ati gan ddefnyddio'r doniau hyn heb laesu dwylo. Diolch am bob caredigrwydd a'r dymuniadau da, a gweddïaf y bydd bendith arnoch.

*MBH*: Diolch am fod mor barod i ateb fy nghwestiynau, a dymunwn y gorau o bopeth i chi a Rhian yn y dyfodol.

### *Nodyn o ddiolch a ffarwél gan Swyddogion y Garn i'r Parchedig R W Jones ar ei ymddeoliad*



Ein hannwyl gyfaill,

Gwibiodd y deuddeng mlynedd o'ch bugeiliaeth drosom 'megis chwedl', fel y dywed y Gair.

Drwy gydol y cyfnod hwnnw, buoch inni yn bopeth a ddisgwyliem ac a ddymunem ei weld mewn Gweinidog. Rhoesoch inni arweiniad ysbrydol cadarn mewn gair a gweithred. Dangosoch ymrwymiad arbennig yng ngyswllt yr ifanc. Tyner a chynnes bob amser hefyd oedd eich gofal am yr afiach a'r gwan, y trallodus a'r methedig. Fel pregethwr, yr oeddech mor rymus a huawdl â neb a ddringodd i bulpud ein henwad yn ein cyfnod.

Yn ychwanegol at hyn oll, y mae i chwi fwndel o ddoniau a nodweddion annwyl, gan gynnwys personoliaeth agored a chyfeillgar. Yn ganwr o safon uchel, fe'ch trwythwyd yn niwylliant gorau ein cenedl. Gwyddom hefyd yn dda am eich hoffter o dynnu coes mewn modd gogleisiol a chellweirus.

Y mae i chwi y parch a'r serch uchaf yn y fro hon ymhlith aelodau eglwysig a'r gymdeithas ehangach yn gyffredinol.

Pan fu i chwi, beth amser yn ôl (fel Elias gynt yn ei gerbyd tanllyd), ruthro yn fotorbeiciol tuag at fyd arall, yr oedd pryder cymdogaeth gyfan am eich adferiad yn un real a diffuant.

Buasai'r nodyn hwn yn gwbl anghyflawn pe na chyfeiriem hefyd at Rhian, eich annwyl briod, a gyfrannodd mor sylweddol at fywyd yr Eglwys yn ei ffordd ddirodres ei hun.

Boed nodded gorau'r Nef arnoch eich dau.

Gyda hiraeth a chyda llawer o ddiolch.

*Swyddogion y Garn*

## Ebrill

1 Cyngerdd gan Gôr Merched Canna,
arweinydd Delyth Medi,
yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch
Llywydd: Y Parchedig R W Jones

**2** Parch Tudor Davies

5 Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o'r gloch
Panel dan gadeiryddiaeth y Fonesig Alwen Morgan

**9** ***Sul y Blodau***
Parch Stanley Lewis
Cynulleidfa Noddfa'n ymuno yn y Garn



12 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Horeb, Penrhyn-coch am 7 o'r gloch

14 ***Bore'r Groglith***
Oedfa gymun am 9 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse

**16** ***Sul y Pasg***
Oedfa'r bore dan arweiniad
y Parch Gordon Macdonald



**23** Yr Athro Alwyn Roberts
Oedfa gymun yn y bore

26 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Capel y Garn am 7 o'r gloch

**30** Miss Beti Griffiths
Mr Arwyn Pierce

### *Ysgol Sul Bethlehem*

Beth yw angel? Beth yw gwerth a pheryglon defodau a seremonïau allanol crefydd? Ydy twyll yn bechod? Pam na chafodd Jacob ei gosbi am dwyllo Esau? A yw Duw'n mynegi ei fwriadau drwy freuddwydion?

Dyma rai o'r cwestiynau y bu'r Ysgol Sul yn ymgiprys â nhw wrth ddarllen Llyfr Genesis, oblegid dyna lle buom yn pori oddi ar fis Medi y llynedd, a chael blas mawr ar ddarllen yr hen hanesion am ddechreuadau cenedl Israel. Mae'r awr fer ar b'nawn Sul yn hedfan; mae'r cyfle i rannu barn a chwestiwn yn amheuthun, a geiriau'n cael eu dihuno o ddyfnder y cof i sigo'r ymysgaroedd, megis cwestiwn dirdynnol Isaac i'w dad – "Wele dân a choed; ond ble mae oen y poeth offrwm?"

Erbyn troad y flwyddyn roeddem wedi cyrraedd y stori orau ohonyn nhw i gyd, sef hanes Joseff. Campwaith yn wir. Cawsom ein harwain o'r dechrau pan oedd Joseff yn hogyn ifanc deallus, (a gorhyderus efallai?) a oedd yn destun cenfigen i'w frodyr, drwy hanes y dial, y llwyddiant a'r siomiant a'r dial eto, at y cymodi gorfoleddus, sy'n glo fwy na theilwng i stori a ddechreuodd gyda'r fath dwyll a dichell. Drwy'r cyfan mae'r storïwr yn llwyddo i'n cadw ar flaenau'n seddau gyda thensiwn a rhyddhad yn eilio â'i gilydd.

Ac onid yw Joseff yn ddyn gwerth ei nabod – yn baragon o ddyn – yn unplyg a doeth, yn ddeallus ac yn olygus. Does ryfedd yn y byd bod gwraig Potiffar wedi rhoi ei chrafangau ynddo. Er ei holl rinweddau lwyddodd e ddim i ddianc yn holliach rhag ei hystryw, ond gan fod yr Arglwydd gydag ef, trodd y camwedd yn gyfle.

Ymlaen at Efengyl Ioan yn awr – a diolch i Gwenda am gadw trefn ac i Gaenor am sicrhau llewych i'n llwybrau.

*Llinos Dafis*

Mae'r dosbarth difyr a bywiog hwn yn cyfarfod yn ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 2 o'r gloch ar b'nawn Sul – croeso i unrhyw un droi i mewn.

### *Gair neu ddau gan y plant*

**Beth yw Mr Jones y Gweinidog i ni?**

Stori ddiddorol, fel arfer yn ddoniol hefyd. Wedyn, "Gwrandwch …" Dyna pryd bydde Mr Jones yn gwneud inni wrando a dysgu pethau pwysig am fywyd. I ni, mae Mr Jones yn ddyn caredig iawn, yn barod i chwerthin a rhannu jôc, ond mae o ddifri am sut mae Iesu'n moyn inni fyw.

Pan mae Mr Jones yn y Capel, mae'r canu yn llawer gwell oherwydd bod ganddo lais mawr cyfoethog fel tase fe'n canu opera.

Y plant fydd yn ei golli fwyaf achos rydym ni yn edrych ymlaen at y stori a gweld beth sydd yn y bag coch efo'r defaid. Rydym ni – Rhun, Gwern ac Osian – yn ddiolchgar iawn, ac yn gobeithio bydd Mr Jones yn dod 'nôl i'n gweld yn aml.

*Rhun Penri*

**B**ugail da,
**O**edfaon cyffrous,
**B**ob
**J**ones
**O**edd yn swyno gyda
**N**aws
**E**i
**S**traeon gwych.

*Iwan a Meinir Williams*



Roedd Mr Jones yn hapus ac yn ddoniol. Roedd e wedi bod 'da ni am lawer o flynyddoedd.

Rydym ni yn gobeithio y bydd e'n cael bywyd da yn ei gartref newydd.

*Charlotte*

Rydym yn drist fod Mr Jones yn ein gadael ni. Gobeithio y byddwch chi'n dod 'nôl i'n gweld ni weithiau.

Roedd eich storis yn gwneud i ni chwerthin. Roedd y bag yn ddoniol hefyd. Fe fyddwn ni'n cofio am y defaid ar y bag.

Gobeithio y byddwch chi'n cael amser da yn Wrecsam.

Fyddwn ni byth yn anghofio amdanoch chi, a gobeithio y byddwch chi ddim yn anghofio ni.

*Thomas, Iestyn a Dinas*

### *Dechrau'r Daith*

Yn fuan ar ôl i'm cyfaill Byron Howells, Goginan, fynd i astudio ym Mangor ar gychwyn ei daith i'r weinidogaeth, soniodd wrthyf am un o'i gyfeillion newydd, Bob Llanbedrog (Byron oedd y cyntaf i'w alw felly, am mai Robat y gelwid ef yn ei gynefin), a chyn bo hir fe gyfarfûm â'r gŵr o Lanbedrog a fu'n gyfaill da imi byth oddi ar hynny.

Roedd Bob, Byron a minnau'n gorffen yn y colegau yn haf 1967, ac fe gafodd y tri ohonom alwadau i fugeilio gofalaethau ym Meirionnydd, a hynny yn esgor ar fynych seiadu a chydweithio. Sefydlwyd Bob yng ngofalaeth Llidiardau, Tal-y-bont a Chwmtirmynach (daeth cyfeillion y Parc dan ei ofal ymhen blwyddyn) ar 5 Medi, minnau yn Hen Gapel Llanuwchllyn a'r canghennau trannoeth, a Byron yn Nhrawsfynydd ac Abergeirw y diwrnod wedyn.

Byron oedd yr unig un i'w ordeinio yn Sasiwn y De a gynhaliwyd yn y Garn yng Ngorffennaf 1967, ond yr oedd Gareth Parry (ymsefydlodd yntau ym Mhenllyn, yn Llandderfel a Chefnddwysarn) yn gwmni i Bob yn Sasiwn y Gogledd yn Seilo, Caernarfon (yr hen addoldy), ac yr oedd Gwenda a minnau yno mewn oedfa a barhaodd am deirawr! Traethwyd ar 'Natur Eglwys' gan y Parch W J Thomas, Caernarfon, a'r Parch J T Roberts, Cerrigydrudion, a draddododd y 'Cyngor' (maith).

Bedwar diwrnod wedi'r oedfa hirfaith roedd Bob a minnau yn gwasanaethu yn ein priodas gyntaf yng Nghapel Cwmtirmynach ar 25 Tachwedd 1967, pan unwyd Rhiain Davies (merch i gyfnither Alwen Morgan) o'r Cwm a John Manzini o Lanuwchllyn, a chawsom ddiwrnod bendithiol yng nghwmni'r ddau deulu.

Buom gyda'n gilydd wedyn mewn angladdau ac oedfaon gwahanol, a mynd ar dro i Wrecsam i'r ddwy ysbyty i weld y cleifion ac i Swyddfa'r Dreth Incwm! Pan aed â mwy o arian nag a ddylid o gyflog Bob, aeth â Huw Jones, gweinidog Capel Tegid (a fu, fel Gwilym Williams, capel yr Annibynwyr, yn gefn mawr inni) gydag e, ac fe ddangosodd Yncl Huw Bach (fel y gelwid e gan ein merched ni) i bobol y dreth fod Mistar ar Mistar Mostyn!

Er i Bob adael y mynyddoedd am lan môr y Bermo ym 1973, byddem yn parhau i gwmnïa, yn enwedig pan ddeuai i Fodurdy Llanuwchllyn a dod i Garth Gwyn tra byddid yn trin y car neu'r moto beic.



Ac yna, wedi i Bob ddod i'r Garn a'r eglwysi eraill, adnewyddwyd y gyfeillach ac yntau'n galw i weld Mam a Nhad. Wedi ymddeol a dychwelyd i Dregerddan, cawsom fod yng nghwmni'n gilydd yn amlach. Roedd yn awyddus fod Gwenda a minnau'n ymsefydlu yma, ond mae'r gwalch yn mynd â'n gadael cyn bo hir. Bydd raid cyrchu am Wrecsam i barhau'r seiadu.

Mae Bob a minnau wedi hiraethu'n aml am Byron a fu farw'n 49 oed yn Rhagfyr 1989, ond y mae cofio arabedd a doniolwch yr hen gyfaill, heb sôn am ei gyfraniad gloyw fel gweinidog a llenor, wedi bod o gymorth i ninnau ddal ati am y deugain mlynedd hyn ymron.

Rwy'n diolch am y cyfle i gyfarch Bob ar derfyn ei weinidogaeth oludog ac i ddymuno i Rhian ac yntau flynyddoedd o ddedwyddwch wedi'r llafurio hir.

*W J Edwards*

### *Dau atgof*

Rydw i'n cofio'r tro cyntaf i Mr Jones ddod i'r Garn, yn ôl yn 1994. Daeth â drych gydag ef a'i ddangos i ni'r plant, a rhoi anogaeth i ni edrych yn ddwfn i mewn i ni'n hunain. Dyna sut y byddaf yn hoffi cofio gwasanaeth Mr Jones i'r Capel – fel arweinydd penderfynol ond yn ein harwain i syllu i mewn i'n hunain ac i chwilio am yr ysbrydol oddi mewn.

Pan gawsom wersi cyn cael ein derbyn i'r Capel, ymddiheurodd Mr Jones am gyfeirio atom fel "'mach i" – rhag ofn ein bod yn meddwl ei fod yn edrych i lawr arnom ni. Roedden ni i gyd yn gytûn nad oedd angen iddo boeni am hynny o gwbl, ac mewn gwirionedd, rydw i'n falch iawn o gael fy ngalw yn "'mach i" gan Mr Jones oherwydd fy mod yn falch o'r agosatrwydd arbennig sydd ganddo tuag ataf i a gweddill ei braidd.

Diolch am bopeth, ac ymddeoliad hapus i chi!

*Seiriol Hughes*